



The background is a complex, abstract pattern. It features a series of concentric circles, each composed of many small, multi-colored squares. The colors include red, blue, green, yellow, and brown. These circles are centered on a dark, almost black, rectangular area. The overall effect is a sense of depth and movement, as if the pattern is expanding from the center. The text is overlaid on the dark central rectangle.

BOD YN
YMARFERYDD
MOSEGOI

GOFYNION CGA (EWC)




Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer
cofrestreion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg

[www.ewc.wales/site/index.php/en/
professional-development/resources-
and-guides/research-ethics](http://www.ewc.wales/site/index.php/en/professional-development/resources-and-guides/research-ethics)



RHAID I ATHRAWON COFRESTREDIG:

seilio eu perthynas â disgyblion ar ymddiriedaeth a pharch;
rhoi sylw i ddiogelwch a lles y disgyblion sydd yn eu gofal;
gweithio mewn modd cydweithredol gydag athrawon a
gweithwyr proffesiynol eraill, a datblygu a chynnal
perthynas dda â rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.



Beth mae'r gair
'moeseg' yn ei
olygu i athro?

MOESEG?



PAM BOD GENNYM GODAU MOESEGOL?

Cyflwynwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn dilyn erchyllterau mewn gwersylloedd marwolaeth


(**Cod Nuremberg** - set o egwyddorion moeseg ymchwil ar gyfer arbrofi ar bobl a gyflwynwyd o ganlyniad i dreialon Nuremberg ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd)



e.e. am ba hyd y gall pobl aros
mewn dŵr rhewllyd cyn iddynt rewi.

Pam y byddai'r wybodaeth hyn yn
ddefnyddiol?

OEDI I FEDDWL:




Sut yr ydym yn ystyried y data a gasglwyd yn y gwersylloedd marwolaeth?

Casglwyd y data'n drylwyr, gan roi gwybodaeth a oedd yn ddefnyddiol iawn i ymchwil feddygol

A ddylid ei ddefnyddio?

Mae moeseg yn ymdrin â dilema'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir.



OND A OEDD Y MEDDYGON YN ANFAD YNTEU A OEDDENT YN BOD YN UFUDD?

Dyma gyd-destun Arbrawf Stanley Milgram



Stanley Milgram-arbrawf

Defnyddiwyd lefel y sioc yr oedd y cyfranogwr yn fodlon ei chyflwyno fel mesur ufudd-dod.

Pa mor bell ydych chi'n meddwl yr oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn fodlon mynd?

Faint o'r 100 o gyfranogwyr yn eich barn chi a barhaodd i weinyddu'r sioc fwyaf?

2007 - Derren Brown:

<https://www.youtube.com/watch?v=y6GxluljT3w>

Arbrawf Gwreiddiol

Sylwer: gall gwyllo hwn beri gofid

MOESEG MEWN ADDYSG

Mae 'moeseg' yn cyfeirio at reolau ymddygiad; fel arfer i gydymffurfio â Chod neu set o egwyddorion (Robson, 2002:65).

Mewn addysg, nodir y Cod hwn gan y British Education Research Association (BERA)




A YW 'MOESEG' YN ABSOLIWT?

Mae penderfyniadau moesegol fel arfer yn ddewisiadau sy'n gysylltiedig â'r cydbwysedd rhwng budd a risg

Caiff y dewisiadau hyn eu harwain gan:

- ganllawiau moesegol
- brosesau cymeradwyo moeseg
- bwyllgorau moeseg



A YW 'MOESEG' YN ABSOLIWT?




Copyright © 2011 R.J. Romero. www.hipaaCartoons.com

"I've been getting annoying pangs of conscience when faced with ethical dilemmas. Got anything for that?"

A oes ymateb 'cywir' ac 'anghywir' i ddilema moesegol?

Ar y naill law rydym am wella profiad dysgu sydd o fudd i ddysgwyr, fodd bynnag ar y llaw arall gall achosi niwed.

ARFER MOESEGOL



Ai rhywbeth cymharol syml yw hyn?

Moeseg ymddiriedaeth, gonestrwydd ac uniondeb
gan guddio ein dibenion

Cyfrinachedd

- beth yw gwybodaeth gyfrinachol

ARFER MOESGOL

... gwneud dyfarniadau (moesegol) am ymddygiad



DILEMA

Mae'r awyrgylch yn ysgol uwchradd Abertawe yn llawn tyndra a disgwyliad. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, mae'r tîm rygbi wedi cyrraedd y rownd gynderfynol yn y sir. Mae'r gymuned yn llawn cyffro hefyd, ac mae pawb yn gwneud cynlluniau i fynychu'r digwyddiad mawr Ddydd Sadwrn nesaf.



DILEMA

Mae Jac, yr hyfforddwr, wedi bod yn aros am flynyddoedd i gael tîm o'r fath.

Dim ond un wythnos arall sydd ar ôl i ymarfer.

Mae'n rhaid i bawb fod yn yr ymarfer bob nos yn ystod yr amser a drefnwyd yn rheolaidd - dim eithriadau.



DILEMA

Ddydd Mawrth, mae Dylan yn hwyr i'r ymarfer.

Mae Dylan yn hwyr oherwydd bod yn rhaid iddo fynd â'i chwaer fach at y meddyg gan ei bod yn sâl iawn.



DILEMA

Mae'r rheol yn dweud y dylai unrhyw un sy'n torri rheol gael ei wahardd am un wythnos lawn.

Os yw Jac yn dilyn y rheol, ni fydd Dylan yn chwarae yn y rownd gynderfynol. Ond mae'r tîm cyfan yn dibynnu arno.

Beth ddylai Jac ei wneud?




DILEMA

Ddydd Mercher, roedd Luc yn hwyr oherwydd iddo gael ei gadw ar ôl gwrs am beidio gwneud ei waith cartref.

Mae Luc yn chwaraewr rygbi gwych. Os na fydd yn chwarae, maent yn annhebygol o ennill.

Beth ddylai Jac ei wneud nawr?



The background of the image is a dark, textured surface featuring a prominent fingerprint pattern. A thin red crosshair is centered on the image, with a vertical line and a horizontal line intersecting at the middle. The text is white and bold, positioned in the center of the image.

**ANHYSBYSRUYDD A
CHYFRINACHEDD**

ANHYSBYSRWYDD A CHYFRINACHEDD

‘The confidential and anonymous treatment of participants’ data is considered the norm for the conduct of research’ (BERA, 2018:21)

Mae gan y cyfranogwyr yn eich ymchwil yr hawl i breifatrwydd.

Cyflawnir hyn drwy sicrhau eich bod yn rheoli eich data ymchwil yn gyfrinachol ac yn ddienw.

ANHYSBYSRWYDD A CHYFRINACHEDD



Anonymous

Nid yw rhain yr un peth.

Dylid sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwbl ymwybodol o fwriad yr ymchwilydd o ran anhysbysrwydd a chyfrinachedd.

Mae **cyfrinachedd** yn golygu peidio â datgelu gwybodaeth gan gyfranogwr mewn unrhyw ffordd a allai ddynodi pwy yw'r unigolyn hwnnw neu ganiatáu iddo gael ei olrhain.

Mae **anhysbysrwydd** yn golygu na all yr ymchwilydd na pherson arall adnabod y cyfranogwr o'r wybodaeth a ddarparwyd.



CYFRINACHEDD

Mae cyfrinachedd yn golygu mai dim ond yr ymchwilydd/wyr sy'n gallu cysylltu ymatebion gydag unigolion.

Rhaid i'r ymchwilwyr wneud pob ymdrech i atal unrhyw un o'r tu allan i'r astudiaeth rhag cysylltu unigolion â'u hymatebion.



Mae'n anodd sicrhau anhysbysrwydd wrth ddefnyddio fideo a/neu ddata digidol.



Mae canllawiau BERA yn ddefnyddiol ac yn fanwl yn hyn o beth (gweler p.21-25).



Mae goblygiadau'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn sylweddol a dylai ymchwilwyr fod yn gyfarwydd â goblygiadau'r rhain ar gyfer eu hymchwil.

ANHYSBYSRWYDD A CHYFRINACHEDD

SICRHAU DATA DIENW



Mae gallu rhannu eich ymchwil yn bwysig. Fodd bynnag, yn foesegol, mae'n rhaid i ni ddiogelu ein cyfranogwyr.

Lle bynnag y bo modd, ni ddylech gasglu gwybodaeth adnabod (fel enw, cyfeiriad) ar gyfer eich cyfranogwyr.

Dylech gadw'ch data'n ddiennw o ddechrau'r broses.

SUT GALLWCH CHI DROI DATA YN ANHYSBYS?

Mae'r broses o droi data yn anhysbys yn galw am newid y dynodwyr mewn rhyw ffordd.

Gallai hyn olygu bod gwybodaeth adnabod yn cael ei thynnu ymaith, ei hamnewid, ei hystumio, ei chyffredinoli neu ei chydgasglu.

Cofiwch, gall manylion adnabod unigolyn gael eu datgelu trwy:

- Ddynodwyr uniongyrchol fel enwau, gwybodaeth cod post neu luniau.
- Ddynodwyr anuniongyrchol a allai, o'u cysylltu â gwybodaeth arall sydd ar gael, ddatgelu pwy yw rhywun, er enghraifft gwybodaeth am weithle, cyflog neu oedran.

YMDDWYN YN
FOESEGOL





CYDSYNIAD GWIRFODDOL, GWYBODUS

Mae hyn yn un o egwyddorion sylfaenol ymddygiad moesegol mewn ymchwil.

*'It is normally expected that participants' **voluntary informed consent** to be involved in a study will be obtained at the start of the study, and that the researchers will remain sensitive and open to the possibility that participants may wish, for any reason and at any time, to withdraw their consent' (BERA, 2018, p9).*


CANIATÂD

UNCRC Erthygl 12:

- Dylai plant gael llais mewn materion sy'n effeithio arnynt



BYDD ANGEN I CHI YSTYRIED:



Pwy sydd
angen rhoi
caniatâd?

Sut y byddwch
chi'n gofyn
amdano?

Hawl y
cyfranogwyr i
dynnu'n ôl

YMDDWYN YN FOESEGOL

Mae angen i unrhyw berson a ddewiswyd i gymryd rhan yn yr ymchwil hefyd ddeall eu hawl i:

- wrthod cymryd rhan heb ganlyniadau andwyol;
- beidio ag ateb cwestiynau penodol heb orfod rhoi rheswm;
- dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw bwynt heb ganlyniadau anffafriol.





YR HAWL I DYNNU'N ÔL

Sut fyddwch chi'n sicrhau bod gan y cyfranogwyr yr hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg heb ganlyniadau niweidiol?

A yw'n ddigon gofyn i ddisgyblion lofnodi eu henw ar ddechrau'r astudiaeth ymchwil a chymryd eu bod yn hapus i barhau drwyddi draw?

SYNIADAU...CYDSYNIAD PARHAUS

Mae rhai ymchwilyr yn defnyddio system tic/croes neu wyneb hapus/trist i sicrhau cydsyniad parhaus. Gellir gwneud hyn hefyd gyda chardiau datganiad dwyffordd.

Trwy roi cerdyn dwyffordd i'r plant, yn syml, gallant droi'r cerdyn i ddangos eu bod yn hapus i barhau neu eu bod eisiau gadael.



Rwy'n hapus i barhau



Hoffwn i adael

CYDSYNIAD GAN BLANT IFANC

Mae rhai ymchwilwyr yn defnyddio bathodynau, sticeri neu fandiau lliw gwahanol i'r plant eu gwisgo er mwyn dangos p'un ai a ydynt yn hapus i gael eu harsylwi

Ar ôl esbonio y bydd recordiad fideo o'r sesiwn Feithrin ar gael i'w wyllo nes ymlaen, gall y plant ddewis bathodynau, sticeri neu fandiau melyn neu wyrdd i ddangos p'un ai a ydynt yn hapus i'w hathrawon eu gwylio nes ymlaen ar y fideo. (Ni allant, yn yr achos hwn, ddewis peidio â chael eu cynnwys yn y fideo).

Bydd y bathodynau, sticeri neu'r bandiau ar gael i'r plant trwy gydol y sesiwn, fel y gallant newid eu meddwl ar unrhyw adeg.



ENGHRAIFFT

Mae Llinos yn ymchwilio i'r graddau y mae'r plant Meithrin yn dewis amrywiaeth o weithgareddau chwareus dros gyfnod sesiwn, neu'n tueddu tuag at yr un rhai. Mae hi wedi penderfynu y bydd recordio tair sesiwn ar fideo ac olrhain symudiadau plant rhwng pob dewis chwarae, a'r amser a dreuliant wrth bob dewis, yn rhoi data defnyddiol iddi hi.

Sut gallai Llinos:

- hysbysu'r plant am yr hyn mae hi'n bwriadu ei wneud?
- penderfynu p'un ai a all y plant ddewis peidio â bod yn y fideo? Os felly, sut mae hi'n sicrhau'r opsiwn hwn?
- ceisio cytundeb y plant i olrhain eu dewisiadau chwarae er mwyn helpu ei hymchwil?
- sicrhau cytundeb parhaus gan y plant i gymryd rhan?

TAFLENNI GWYBODAETH I GYFRANOGWYR (GAN GYNNWYS DISGYBLION A'U RHINI)



Bydd angen i chi esbonio eich ymchwil i bawb sy'n cymryd rhan er mwyn cael caniatâd neu gydsyniad.



Os yw eich cyfranogwyr o dan 18 oed, gallwch benderfynu os ydych am roi esboniad ysgrifenedig o'r ymchwil (ar gyfer rhai oedran neu lefel cyrhaeddiad priodol) neu os ydych yn dymuno darllen datganiad cyn i chi ddechrau'r ymchwil (i blant iau neu'r rhai na allant ddarllen y wybodaeth).




Os ydych yn darllen datganiad, dylai'r ddalen wybodaeth gynnwys sgript y byddwch yn ei darllen ar goedd i'r disgyblion.

TAFLENNI GWYBODAETH (AR GYFER RHIENI A DISGYBLION)

Dylai'r rhain gynnwys:


- beth mae'r ymchwil yn ceisio ei ddarganfod;
- pwrpas yr ymchwil;
- beth yn union fydd yn cael ei ofyn gan gyfranogwyr;
- sut y bydd y wybodaeth y maent yn ei darparu yn cael ei chofnodi;
- beth fydd wedyn yn digwydd i'r data;
- pa radd o gyfrinachedd ac anhysbysrwydd sy'n cael ei gynnig;
- sut y caiff y wybodaeth ei dadansoddi;
- sut bydd y canfyddiadau'n cael eu hadrodd;
- pwy fydd yn gweld canlyniadau'r astudiaeth.

A close-up, horizontal view of a stack of several books. The books have various colored spines: blue, green, white, and red. Black elastic bands are wrapped around the spines of the books, holding them together. The text is overlaid on a dark, semi-transparent rectangular background that covers the middle portion of the image.

SEFYLLFA'R YMCHWILYDD: GOGWYDD ANYMWYBODOL



PWY SY'N HOFFI....?



Sophie



Jenny



Sanjey



Jack

PWYSIGRWYDD CYDNABOD YMAGWEDDU GAN YMCHWILWYR

Mae pawb yn dod â set o normau ac arferion diwylliannol i'w hamgylchedd gwaith sy'n effeithio ar eu hagweddau a'u hymddygiad.


- Mewn ymchwil gall hyn effeithio ar y modd rydych chi'n dehongli sefyllfaoedd

Rydym i gyd yn gwneud tybiaethau sy'n dod o amrywiaeth o ffynonellau:

Magwraeth, y cyfryngau, cydweithwyr, cymdogaeth, crefydd, profiadau ac ati.

Mae llawer o'r rhagfarnau hyn mor ddwfn maent yn aml yn yr isymwybod.

Gallwn wneud rhywbeth am ein rhagfarnau, drwy fod yn ymwybodol ohonynt a chanfod mwy o wybodaeth i'w chwalu.



MATHAU O RAGFARN ANYMWYBODOL / YMHLYG

Mae yna lawer o wahanol fathau o ragfarn, dyma rai:

Fel fi/ Cysylltiad

Tuedd affinedd yw pan fyddwn yn ffafrio pobl yr ydym yn rhannu rhinweddau â nhw.

Harddwch

Mae tuedd harddwch yn awgrymu ein bod yn credu bod person harddach yn cyflawni tasg yn well na rhywun llai deniadol yn gonfensiynol

Cyferbyniad

Effaith cyferbyniad yw pan fyddwn yn cymharu un peth â'r llall yn hytrach na'r darn cyfan o waith yn ôl ei rinweddau

Rhyw

Tuedd rhywedd yw pan fyddwch chi'n meddwl y gallai un rhyw fod yn well mewn tasg nag un arall. Mae ganddi ysgrifennu hyfryd.

Halo

Rhagfarn Halo yw pan fyddwch chi'n canolbwyntio ar un positif gwyd wrth anwybyddu unrhyw ddiffygion

Cyrn

Mae hyn i'r gwrthwyneb i effaith Halo. Fe wnaethon nhw un peth drwg, nawr ni allant ei ysgwyd i ffwrdd.

MAE BOD Â THUEDD ANYMWYBODOL YN NORMAL

Ond nid yw'n iawn ei anwybyddu.

Mae'n effeithio ar y modd yr ydym yn gwerthfawrogi, yn grwpio, yn trin ac yn ymwneud â phobl bob dydd.

**IT IS
INFLUENCED BY**

Stereotypes

Socialisation

Culture

Media

Friends

Family

STRATEGIES TO REDUCE EFFECT OF UNCONSCIOUS BIAS



Challenge
stereotypes



Notice in others



Be aware of own



Look for alternative
points of view



Spend time with people
different to yourself



Challenge assumptions
Challenge traditions

SUT Y GALLAI EICH TUEDD YMHLYG EFFEITHIO AR YR HYN YR YDYCH YN EI
GOFNODI FEL ARSYLWR ANGHYFRANOGOL MEWN YMCHWIL?



Yn union fel y mae'r plant
wedi'u rhaglennu ymlaen llaw â
thuedd – rydyn ni hefyd.

Pa effaith y gallai hynny ei
chael ar ddilysrwydd eich
arsylwadau?



YMAGWEDDU GAN YMCHWILWYR

- ▶ Mae eich tuedd ymhlyg a'ch ymagweddu'n cael eu llunio gan eich profiadau

Gall hyn effeithio ar y modd rydych yn dehongli data.

Mae cyfyngiadau i'r dybiaeth ein bod yn trin pawb yn yr un ffordd a ddim yn gweld lliw neu wahaniaethau (Michael & Samuel, 2012)

Drwy fod yn ymwybodol o'ch safiad, mae'n golygu y gallwch chwilio am safbwyntiau amgen a herio tybiaethau.

PA NIWED ALL YMCHWIL EI ACHOSI?



TASG

Darllenwch a chymharwch y canllawiau ar ystyriaethau moesegol ar gyfer ymchwil.

Defnyddiwch:

- Ganllawiau BERA
- Cod Ymarfer Moeseg ac Integredd Ymchwil y Drindod Dewi Sant

YR ASEINIAD

Bod yn foesegol

300

Esboniwch unrhyw ystyriaethau moesegol sy'n berthnasol i'ch astudiaeth.

Rhaid i chi drafod sefyllfaoldeb (positionality), h.y. y berthynas athro/disgybl.

Dylech gynnwys gwybodaeth am anhysbysrwydd a chyfrinachedd.

Rhaid i chi drafod y broses a gyflawnir er mwyn cael cydsyniad disgyblion.

Cofiwch gyfeirio'n benodol at eich Ffurflen Foeseg, y byddwch yn ei chynnwys yn eich atodiadau.

TASG
GYFEIRIEDIG

OPEN ACCESS

Manuscript ID:
EDU-2020-08043232

Volume: 8

Issue: 4

Month: September

Year: 2020

P-ISSN: 2320-2653

E-ISSN: 2582-1334



Researcher Positionality - A Consideration of Its Influence and Place in Qualitative Research - A New Researcher Guide

Andrew Gary Darwin Holmes

School of Education, University of Hull, Hull, England

 <https://orcid.org/0000-0002-5147-0761>

Abstract

Masters and PhD student researchers in the social sciences are often required to explore and explain their positionality, as, in the social world, it is recognized that their ontological and epistemological beliefs influence their research. Yet novice researchers often struggle with identifying their positionality. This paper explores researcher positionality and its influence on and place in the research process. Its purpose is to help new postgraduate researchers better understand positionality so that they may incorporate a reflexive approach to their research and start to clarify their positionality.

Keywords: Researcher Positionality, Reflexivity, Epistemology, Ontology, Insider and Outsider research

